**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peter Fox AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

seneddhealth@senedd.cymru

23 Mehefin 2025

Annwyl Peter,

Rwy’n ysgrifennu i roi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar gyfer gofal llygaid a gynhaliwyd ar 5 Mehefin. Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

1. Diweddariad ar yr amserlen o ran casgliadau adolygiad Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, yn dilyn pryderon diogelwch mewn perthynas â dirywiad maciwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cael adroddiad terfynol yr adolygiad eto, a gynhaliwyd y llynedd i edrych ar ddirywiad maciwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran. Mae wedi ymrwymo i rannu'r adroddiad gyda Llywodraeth Cymru, ac i weithio gyda Thîm Perfformiad a Gwella GIG Cymru i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol i’r gwasanaethau yng ngoleuni'r casgliadau.

2. Darparu data a manylion ar lefelau darparu sgiliau uwch ar gyfer optometryddion.

Dyrannodd Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant 2025-26 £0.658m i gynyddu cyfleoedd i optometryddion ddarparu gwasanaethau estynedig, wedi'u halinio â nod Llywodraeth Cymru yn ei Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol (2022) sydd wedi ei ategu gan ddiwygiadau i'r contract optometreg (2023-24).

Gwnaed newidiadau i reoliadau (Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant GOC 2021) ac addysg a hyfforddiant ar gyfer israddedigion ac ôl-raddedigion er mwyn hwyluso ffyrdd newydd o weithio, ac i helpu optometryddion sydd newydd gymhwyso i gael sgiliau a chymwysterau ychwanegol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn comisiynu cymwysterau ôl-radd uwch ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi sy'n gweithio yng Nghymru. Ers 2021, mae AaGIC wedi comisiynu 460 o gymwysterau uwch i alluogi optometryddion i ddatblygu sgiliau uwch a chefnogi'r gwaith o ddarparu gofal i gleifion mewn lleoliadau gofal sylfaenol, gan leihau'r galw ar wasanaethau arbenigol gofal eilaidd. Nod y cymwysterau uwch hyn yw sicrhau bod optometryddion yn meddu ar y sgiliau i ddarparu'r gwasanaethau hyn fel rhan o ofal sylfaenol.

Mae AaGIC yn canolbwyntio ar feysydd o flaenoriaeth uchel, lle mae lefel y galw yn uchel, megis glawcoma, rheolaeth o glefyd retina meddygol, a rhagnodi annibynnol. Ar ôl iddynt gael y sgiliau uwch hyn, mae'r gweithlu optometreg mewn gofal sylfaenol yn cael effaith uniongyrchol ar ofal a chanlyniadau i gleifion, gan alluogi’r claf i gael mynediad at wasanaethau’n gyflym ac yn amserol, sef rhywbeth sy'n hanfodol er mwyn lleihau’r morbidrwydd hirdymor sy'n gysylltiedig â’r cyflyrau llygaid hyn, sef morbidrwydd nad yw'n bosibl adfer ohono'n aml.

Mae optometryddion yng Nghymru ymhlith y rhai sydd wedi'u hyfforddi i'r lefelau uchaf yn y DU. Mae Tabl 1 yn dangos y nifer cynyddol o wasanaethau a hwylusir gan y cymwysterau ym mhob bwrdd iechyd. Mae Tabl 2 yn manylu ar argymhellion optometreg pellach y cytunwyd arnynt drwy'r Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant 2025-26.

**Tabl 1:** Darparu gwasanaethau’n seiliedig ar gymwysterau uwch; cymharu byrddau iechyd 2021- 2025.

| Byrddau Iechyd | Retina meddygol/ hidlo a monitro | | % Cynnydd | Tystysgrif Uwch/ Glawcoma (monitro) | | % Cynnydd | Rhagnodi Annibynnol | | % Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021 | 2025 | | 2021 | 2025 | | 2021 | 2025 | |
| ABUHB | 12 | 22 | 83.3 | 1 | 11 | 1000 | 9 | 22 | 144.4 |
| BCUHB | 16 | 37 | 131.3 | 1 | 4 | 300 | 5 | 11 | 120.0 |
| CAVUHB | 15 | 22 | 46.7 | 5 | 14 | 180 | 7 | 19 | 171.4 |
| CTMUHB | 5 | 8 | 60.0 | 8 | 11 | 37.5 | 8 | 14 | 75.0 |
| HDUHB | 14 | 31 | 121.4 | 3 | 15 | 400 | 9 | 25 | 177.8 |
| PTB | 2 | 7 | 250 | 0 | 8 | 800 | 1 | 5 | 400 |
| SBUHB | 6 | 10 | 66.7 | 0 | 4 | 400 | 0 | 12 | 1200 |

**Tabl 2:** Y Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant, AaGIC 2025 i 2026

| Optometreg | Lleoedd hyfforddi 2025-2026 | Cyd-destun |
|---|---|---|
| **Rhagnodi Annibynnol (Optometryddion)** | 22 | • Mae'r llwybr Rhagnodi Annibynnol bellach ar waith ar draws Cymru gyfan. Mae'n galluogi symud cleifion o ofal eilaidd i ofal sylfaenol.<br>• Y nod yw recriwtio niferoedd cyfartal o'r holl fyrddau iechyd er mwyn sicrhau tegwch mewn gwasanaethau i gleifion. |
| **Tystysgrif Uwch mewn Rheoli Retina Meddygol (lefel 7)** | 7 | • Mae nifer sefydlog o gymwysterau arbenigol er mwyn sicrhau bod arbenigedd ar gael ar draws Cymru.<br>• Oherwydd demograffeg y boblogaeth, mae BCUHB, HDUHB ac ABUHB yn cael eu ffafrio ar gyfer lleoedd. |
| **Tystysgrif Broffesiynol mewn Rheoli Retina Meddygol (lefel 7)** | 14 | • Mae llwybr retina meddygol Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol newydd Cymru yn galluogi symud cleifion o ofal eilaidd i ofal sylfaenol.<br>• Comisiynir cymwysterau ar draws yr holl fyrddau iechyd, gan eu clustnodi ar gyfer clystyrau lle mae nifer yr optometryddion sy'n meddu ar y cymhwyster yn fach.<br>• Oherwydd demograffeg y boblogaeth, mae BCUHB, HDUHB ac ABUHB yn cael eu ffafrio ar gyfer lleoedd. |
| **Tystysgrif Uwch mewn Glawcoma (lefel 7)** | 7 | • Mae nifer sefydlog o gymwysterau arbenigol er mwyn sicrhau bod arbenigedd ar gael ar draws Cymru.<br>• Oherwydd demograffeg y boblogaeth, mae BCUHB, HDUHB ac ABUHB yn cael eu ffafrio ar gyfer lleoedd. |
| **Tystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma (lefel 7)** | 14 | |
| **Diploma mewn Glawcoma** | 7 | |
| **Tystysgrif Golwg Gwan** | 20 | • Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ymestyn i ganiatáu ar gyfer cynnydd yn y nifer o bractisau sy'n gallu cynnig gwasanaeth Golwg Gwan. |

Rwy’n edrych ymlaen ar gael adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care